

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Mai 7: Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 11: Yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch; Cymanfa'r Annibynwyr am 2.00 o'r gloch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun dan arweiniad Mrs Susan Williams; ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Dr Huw Tegid Roberts.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Mai 7: Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mai 9: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 11: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd Cymanfa'r Annibynwyr am 2.00 o'r gloch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun dan arweiniad Mrs Susan Williams. Bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 11: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 4

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Mai 11

10.15 a.m. - Ysgol Sul
2.00 p.m. - Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun
5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

Mai 18

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mai 25

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Cwrs Coleg y Bala Plant yr Ofalaeth

Plant 8-12 oed
(Blwyddyn 3-6)

Nos Wener, Mai 16
- Dydd Sul, Mai 18

Mae hwn yn gwrs gwerth chweil
bob blwyddyn

Manylion pellach gan y
Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 4

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
- Y Parchg Dafydd Ll Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mai 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
2.00 p.m. - Cymanfa'r Annibynwyr
yn Ysgol Penisarwaun
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mai 18

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John H Hughes

Mai 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 590 - Dydd Sul, 04 Mai, 2014

Ann Maguire

Un o ddigwyddiadau trist yr wythnos ddiwethaf oedd marwolaeth Mrs Ann Maguire, yr athrawes a laddwyd wrth ei gwaith yn ei hysgol yn Leeds. Mae'n debyg bod y dref honno'n ddigon dieithr i'r mwyafrif ohonom. Hyd y cofiaf, unwaith yn unig y bum i yng nghanol y dref, er i mi fynd heibio iddi ambell dro arall.

Nid yw Leeds mor bell ag yr arferwn i feddwl. Mae hi lai na 150 o filltiroedd o Lanberis. Ond diolch am hynny, mae'r hyn a ddigwyddodd yn yr ysgol yno ddydd Llun diwethaf yn beth dieithr iawn i ni yn y rhan hon o Gymru. Mae Leeds a phentrefi Arfon yn bell iawn oddi wrth ei gilydd yn y cyswllt hwn. Ac eto, nid mor bell â hynny chwaith, gan na fyddai pobl ardal Halton Moor yn Leeds wedi dychmygu y gallai'r fath beth ddigwydd yn eu plith hwy cyn dydd Llun. A'r gwir am drasiediau o'r fath o hyd yw bod pob cymuned sy'n eu dioddef yn dweud na fydden nhw wedi dychmygu y gallai'r pethau erchyll hyn ddigwydd yn eu plith hwy. Y gwir trist yw y gall pethau ddigwydd yn unman gan fod gweithredoedd drwg yn codi o'r gallon ddrwg, ac nid yw'r gallon ddrwg wedi ei chyfyngu i rai manau.

Ond wrth gydnabod hyn, nid codi braw nac awgrymu bod perygl gwirioneddol i rywbeth o'r fath ddigwydd yn nes atom a wneir. Digwyddiad cwbl eithriadol ac anarferol oedd yr hyn a gafwyd yn Leeds. A gallwn ddiolch i Dduw am hynny, wrth gwrs. Gallwn ddiolch bod ein hysgolion yn llefydd diogel, ac ni

ddylem orymateb i'r digwyddiad trasig hwn a meddwl bod ein hysgolion wedi troi'n llefydd peryglus dros nos.

A gallwn weddio y bydd pawb yn yr ysgol hon - yn ddisgyblion, athrawon, staff a rhieni - yn cael cymorth a nerth yng nghanol y tristwch a'r braw a'r galar a deimlant ar hyn o bryd. Y mae Duw yno yng nghanol eu dryswch a'u trallod. Mae'n rhwydd iawn dweud hynny, wrth gwrs; ond mae'n wir. Y peryg weithiau yw ein bod yn dweud bod Duw yno pan fo popeth o'n plaid, a'n bod ninnau'n medru diolch am gael ein cadw rhag y pethau drwg hyn. Ond mae Duw yno o hyd. Roedd yno yn Leeds ddydd Llun pan laddwyd Mrs Ann Magurie. Roedd yno'n gweld y cyfan, ac yn caniatáu'r cyfan. Am ba reswm, ni allwn ddweud, ddim mwy nag y gallwn ddweud pam ei fod yn caniatáu i'r holl bethau drwg eraill ddigwydd i ni. Ond nid yw Duw am i ni ei gyfyngu i'r manau a'r adegau da yn unig. Nid Duw ydyw sy'n dweud ei fod gyda ni yn unig pan fo popeth yn mynd o'n plaid a phopeth yn rhwydd. Nid Duw ydyw sydd am i ni ddiolch am ei bresenoldeb mewn hawddfyd yn unig, fel pe byddai'n anghofio amdanom pan fo pethau'n galed. Gweddiwn y bydd pobl Leeds, yn cynnwys teulu'r bachgen a gyhuddwyd o lofruddio'r athrawes, yn profi nerth a chysur Duw yn eu poen a'u dryswch. A gweddiwn dros y bachgen ei hun, y bydd yntau hyd yn oed yn profi agosrwydd y Duw sy'n galw ar bawb i edifeirwch.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Canon Idris Thomas. Diolch iddo am ei wasanaeth unwaith eto.

Gwasanaethir yn Llanberis am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon. Diolch iddo yntau am ei wasanaeth eto heddiw. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Dymunwn yn dda hefyd i bawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd, yn arbennig yr aelodau ffyddlon sy'n methu â dod i'r oedfaon y dyddiau hyn. Gwelwn eisiau'r ffyddloniaid sy'n methu dod atom o Sul i Sul.

Cwrs Plant yn y Bala

Mae'n bryd archebu lle ar gyfer Cwrs Plant yr Ofalaeth yng Ngholeg y Bala ar gyfer plant 8–12 oed, sef plant Blwyddyn 3–6 yr ysgol (er bod croeso hefyd i blant Blwyddyn 7 ddod).

Byddwn yn mynd i'r Bala o nos Wener, Mai 16 hyd amser cinio dydd Sul, Mai 18.

Mae angen llenwi ffurflen ac anfon blaendal i'r Coleg mor fuan â phosibl ac felly a fedrwyd chi wneud yn siwr bod y ffurflenni yn cael eu dychwelyd mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda.

Bydd plant Llanberis a Deiniolen yn rhannu'r penwythnos eleni eto gyda phlant Llanrug a Bethel a gobeithio'n fawr y cawn ni griw da unwaith eto.

Cymdeithas Undebol Deiniolen

Roedd Swper Blynnyddol Cymdeithas Undebol Deiniolen yng Nghlwb Golff Caernarfon nos Lun diwethaf, Ebrill 28.

Y gŵr gwadd oedd Mr Richard Lloyd Jones, Bethel, a chafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo yn llawn o hanesion am wahanol gymeriadau a phrofiadau a gafodd dros y blynnyddoedd mewn mwy nag un maes.

Diolchwyd iddo gan Mr Brian Price.

Diolch yn fawr iawn i Mr a Mrs Neville Thorman Jones a Mrs Eirian Jones am wneud yr holl drefniadau ar gyfer y swper, ac am eu gwaith yn trefnu'r Cymdeithas ar hyd y flwyddyn.

Cymanfa

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr y cylch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun, am 2.00 o'r gloch bawn Sul nesaf, Mai 11.

Aelodau'r Ysgol Sul yn Neiniolen fydd yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth dechreuol a threfniadau'r te.

Bydd y Gymanfa yng ngofal Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug. Cafwyd cyfarfod arbennig o dda yn ei chwmmi hi y llynedd, ac edrychwn ymlaen at gael addoli dan ei harweiniad hi y Sul nesaf.

Croeso cynnes i bawb.

Cymorth Cristnogol Mai 11–17

Mai 11–17 fydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a bwriadwn wneud y casgliad arferol o ddrws i ddrws yn Llanberis Deiniolen eleni eto.

Os medrwyd roi ychydig oriau yn ystod yr wythnos honno i'n helpu gyda'r casgliad byddwn yn ddiolchgar iawn.

Fel y gwyddoch, mwya'n byd o bobl sydd gennym i helpu efo'r casglu, mwya'n byd o arian a gesglir.

Cysylltwch â Mr a Mrs Neville Thorman Jones yn Neiniolen neu'r Gweinidog yn Llanberis os gwelwch yn dda.

Gwefan

Mae lluniau o Pasg Efe, a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Llanrug, ddydd Llun, Ebrill 14 i'w gweld ar wefan yr Ofalaeth ac ar wefan Cynllun Efe.

Gwefan yr Ofalaeth yw
www.gronyn.org

Gwefan Cynllun Efe yw
www.cynllunefe.org

CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener yr wythnos hon, Mai 9.

Cymorth Cristnogol

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ymhen pythefnos bydd sylw'n cael ei roi i un wraig o Dde Swdan, Anoon Aleu. Er bod yr arian a gesglir bob blwyddyn yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol wledydd ar draws y byd, mae'r mudiad yn rhoi sylw i un gymuned neu un teulu er mwyn dod â holl fater tloidi yn fyw. Fe ddioddefodd Anoon Aleu a'i theulu yn ofnadwy oherwydd rhyfel cartref yn ei gwlad, ond mae'n tystio i'r cymorth mawr a gafodd i ail adeiladu ei bywyd trwy fudiad o'r enw 'Hope Agency for Relief and Development', mudiad a gefnogir gan Cymorth Cristnogol. Ceir rhagor o hanes Annon y Sul nesaf.

Cyfarfod Chwarter

Roedd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Tabernacl, Llanrwst nos Fercher diwethaf.

Gweinidog y Tabernacl yw'r Parchg Eryl Lloyd Davies, a fu'n weinidog yn Ebeneser, Deiniolen ar ddechrau ei weinidogaeth. Roedd yn y cyfarfod nos Fercher er ei fod wedi cael cyfnod hir o salwch a mwy nag un llawdriniaeth. Roedd yn dda ei weld yn cryfhau, ac anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad llwyr a buan ato.

Cafwyd sgwrs gan Mrs Julie Edwards, Y Bala am y ddogfen newydd sydd wedi ei hanfon at yr eglwysi yn sôn am y gofynion newydd yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion bregus o fewn yr eglwysi. Cafwyd cadarnhad ganddi y bydd cyfarfodydd arbennig yn cael eu trefnu dros y misoedd nesaf er mwyn rhoi hyfforddiant i eglwysi ac ysgolion Sul ynghylch yr holl fater hwn.